Sgiliau

Mae TGP Cymru yn sefydlu prosiect newydd yng Nghasnewydd o'r enw Sgiliau, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc 16-25 oed sydd â phrofiad gofal ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i wella a mwyhau eu rhagolygon o sicrhau lle addysg neu hyfforddiant neu gyfle cyflogaeth a thai a chefnogaeth briodol.

Bydd y prosiect wedi'i leoli mewn siop elusen, crefft ac uwchgylchu lle bydd pobl ifanc ddifreintiedig yn cymryd rhan mewn rhaglen hybu sgiliau cyflogadwyedd 8-10 wythnos lle byddant yn derbyn profiad gwaith yn rhedeg y siop ochr yn ochr â rhaglen adeiladu sgiliau. Bydd y rhaglen adeiladu sgiliau yn cynnwys gwaith grŵp a sesiynau un i un o sgiliau llythrennedd a TG sylfaenol, ysgrifennu CV, ysgrifennu llythyrau eglurhaol, ymarfer cyfweld, ymwybyddiaeth o fudd-daliadau, cyngor gyrfaoedd, cyfathrebu ac adeiladu perthnasoedd a datrys gwrthdaro. Bydd y bobl ifanc hefyd yn ennill profiad ymarferol o uwchgylchu dodrefn, dillad ac eitemau eraill a fydd yn cael eu gwerthu yn y siop.

Nod y prosiect yw gwella rhagolygon cyflogaeth i bobl ifanc yng Nghasnewydd a'r ardaloedd cyfagos trwy hyfforddiant wedi'i deilwra yn ystod y rhaglen a chymorth cyflogaeth am hyd at dri mis ar ôl ei gwblhau. Ar ddiwedd eu hamser gyda'r prosiect, dylai pobl ifanc wybod sut i ysgrifennu CV effeithiol, teimlo'n barod ar gyfer cyfweliadau yn y dyfodol, ac wedi ennill sgiliau newydd neu uwchraddio sgiliau presennol sy'n ddymunol i gyflogwyr.

TGP Cymru are setting up a new project in Newport called Sgiliau, aimed at providing opportunities for young people aged 16-25 who are care experienced and not in education, employment or training, to improve and enhance their prospects of securing an education or training place or employment opportunity and appropriate housing and support.

The project will be based in a charity, craft and upcycling shop where disadvantaged young people will take part in an 8-10 week employability skills-boosting programme during which they will receive work experience running the shop alongside a skills building programme. The skills building programme will include both group work and 1:2:1 sessions of basic literacy and IT skills, CV-writing, cover letter writing, interview practice, benefits awareness, careers advice, communication, relationship building and conflict resolution. The young people will also gain hands-on experience upcycling furniture, clothes and other items which will be sold in the shop.

The aim of the project is to improve employment prospects for young people in Newport and the surrounding areas through tailored training during the programme and employment support for up to three months after completion. At the end of their time with the project, young people should know how to write an effective CV, feel prepared for future interviews, and have gained new skills or upgraded existing skills which are desirable to employers.